# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL
## MAI 2013

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 15 Mai |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Cae'r Gors, Rhosgadfan |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso ac ethol swyddogion ar gyfer 2013-2014**<br>Elin Evans eisoes wedi cytuno y llynedd i fod yn Gadeirydd am y flwyddyn. Gwilym Lloyd Williams wedi'i ethol yn is-gadeirydd am y flwyddyn gyfredol.<br>Is-bwyllgorau:<br>Pwyllgor gweinyddol a chyllid:<br>Elwyn Jones<br>Meurig Williams<br>Aeron M.Jones<br>Jason Hunt<br>Rhys Owen<br><br>Pwyllgor y Fynwent:<br>Gwilym Lloyd Williams<br>Nerys Evans<br>Michelle Williams<br>Gwilym V.Thomas<br><br>Pwyllgor goleuadau a llwybrau:<br>Tom Ellis<br>Elin Evans<br>Meurig Williams<br>Elwyn Jones<br>Rhys Owen |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Elin Evans, Rhys Owen |
| 3. | **Datgan Buddiant** |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion**<br>Cadarnhawyd fod cofnodion mis Ebrill yn gywir. |
| 5. | **Materion i'w trafod:**<br><br>a. Ffurflenni a chontract tir ychwanegol i'r fynwent, angen eu harwyddo gan ddau aelod |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br>Lein Bryngwyn – clerc ac Elwyn Jones i adrodd ar y sefyllfa bresennol.<br>Wedi derbyn cynllun llwybr gan Lewis Esposito ac am geisio ymgorffori'r cynllun hwn yn y pecyn hyrwyddo newydd sydd ar y gweill. |

| | | |
|---|---|---|
| | Yr afon wedi'i chulhau gan berchnogion y tai yn uwch i fyny na'r bont sydd ar Lein Bryngwyn ger Garreg Lwyd. Mae wal a gerrig wedi'i hadeiladu ynghanol yr afon, a gall hyn greu problemau mawr pe bai llif fel y llynedd yn digwydd eto. Angen i'r clerc gysylltu efo Cyngor Gwynedd i nodi ein pryderon. | |
| 7. | **Is-bwyllgorau** | |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw:<br>Cyfri Siec:<br><br>Taliadau:<br>Snowdonia Slate & Stone – anfoneb am blac ar gyfer lleoliad yr eglwys yn Rhostryfan<br><br>I.T.Davies – Lein Bryngwyn – angen talu rhywfaint ar yr anfoneb diwethaf - £31,235.10 yn weddill – awgrymu wrtho y gallen dalu £20k yr wythnos yma<br><br>Cyflog Clerc<br>Clerc yn cyfarfod efo'r cyfrifydd 14.05.13<br>PAYE Ebrill<br>PAYE Mai<br>PAYE 2012-13<br>Arwyddion cwn ar dennyn – penderfyniad i beidio talu hwn ar hyn o bryd ond angen strapiau ar gefn yr arwyddion<br><br>Talu mewn:<br>TAW – ad-daliad - 4194.45<br>Praesept mis Ebrill – 9850.00<br>(symiau yma wedi'u cynnwys yn y balans uchod)<br><br>Wedi derbyn llythyr cydnabod gan y Cynulliad ynglyn â benthyg arian i brynu'r tir ychwanegol.<br><br>Ffurflenni diwedd blwyddyn 2012-13 wedi'u cwblhau ac yn mynd i'r archwilwyr mewnol ar y 17eg o Fai. | <br>38548.28<br>2,000.59<br><br><br>144.00<br><br><br><br><br><br>20,000.00<br><br><br>418.67<br>98.40<br>98.40<br>588.51 |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Wedi derbyn Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Môn.<br>Ty Hen – sied amaethyddol – defnydd ar gyfer amaethyddiaeth dim gwrthwynebiad | |
| 10. | **Gohebiaeth:**<br>a. Cynllun Datblygu newydd Cyngor Gwynedd a Môn ar y cyd | |

| | |
|---|---|
| 11. | **Materion mis nesa**<br>a. ElJ – marcio lon hyd y ffordd, patchio – angen ei hail-wynebu<br>b. ElJ – angen torri gwair a sprayo steshion<br>c. AMJ – wal Glyn Aber wedi disgyn, adran eiddo yn edrych mewn i'r peth weld pwy sy'n gyfrifol am y wal<br>d. NE – er gwybodaeth – mae pwyllgor meddiannau Capel Horeb wedi derbyn pris i ail-wneud y wal, torri coed i lawr, codi'r cerrig beddi a'u rhoi o gwmpas y wal ac i ail-hadu'r lle i'w wneud yn wair. Pebai isio'i ddatblygu wedyn falle byddai modd cael grantiau i wneud gwaith. Mae'n rhaid hysbysu pobl rhag cael gwrthwynebiad, hefyd mynd o flaen yr Henaduriaeth, os ydyn nhw'n caniatau mae'n rhaid iddo fynd o flaen sawl pwyllgor. Dymuniad y pwyllgor meddiannau yw cael clirio'r safle. |
| 12. | **Daeth y cyfarfod i ben am 8.25pm** |